Rhaglen Gyflawn

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

Cyfarfod

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD GWENER, 15FED MAWRTH, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)**

Pwynt Cyswllt


**Rhodri Jones**

**01286 679325**

**rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Jason McLellan | Cyngor Sir Ddinbych |
| Llinos Medi Huws | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Pritchard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian B. Roberts | Cyngor Sir y Fflint |
| Charlie McCoubrey | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Dyfrig Siencyn | Cyngor Gwynedd |

## Ymgynghorwyr - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dafydd Evans | Grwp Llandrillo Menai |
| Maria Hinfelaar | Prifysgol Wrecsam |
| Yana Williams | Coleg Cambria |
| Askar Sheibani | Bwrdd Cyflenwi Busnes |
| Yr Athro Edmund Burke | Prifysgol Bangor |

## Prif Swyddogion - Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Williams | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Rhun ap Gareth | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Neal Cockerton | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Gibbard | Cyngor Gwynedd |
| Ian Bancroft | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Dewi Morgan | Swyddog Adran 151 |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Alwen Williams | Cyfarwyddwr Portffolio |
| Hedd Vaughan Evans | Pennaeth Gweithrediadau |
| Nia Medi Williams | Uwch Swyddog Gweithredol |

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 6 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 2il Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

## 5. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2024/25 — 12 - 23

Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya ac Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya) i gyflwyno'r adroddiad.

## 6. STRATEGAETH BUDDSODDI — 24 - 44

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) i gyflwyno'r adroddiad.

## 7. SWYDDOGAETHAU BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU - TROSGLWYDDO I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD. — 45 - 49

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio a Phrif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corforedig y Gogledd) i gyflwyno'r adroddiad.

## 8. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD (CBC) - YMESTYN SECONDIAD RHAN-AMSER CYFARWYDDWR PORTFFOLIO'R BWRDD UCHELGAIS FEL PRIF WEITHREDWR DRS DROD Y CBC — 50 - 52

Dylan J Williams (Prif Weithredwr Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais) i gyflwyno'r adroddiad.

## 9. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir isod:

- **Eitemau 10 ac 11:** Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol (Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny)). Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau
- **Eitem 12:** Paragraff 14 ((Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny) a Pharagraff 16 (gwybodaeth y gallai honiad ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol gael ei gynnal yn ei chylch mewn achos cyfreithiol).) o Atodiad 12A o Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Mae hefyd yn cynnwys Cyngor cyfreithiol ar gyfer y Bwrdd sydd angen ei warchod er caniatáu sgwrs agored a di-lyfethair. . Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud a'r Gytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau
.

## 10. 4G+ (SAFLEOEDD A CHORIDORAU ALLWEDDOL CYSYLLTIEDIG) - ACHOS BUSNES AMLINELLOL

Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Digidol) i gyflwyno'r adroddiad.

## 11. HER ARIANNU HYDROGEN - ARGYMHELLION TERFYNOL

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Hedd Vaughan-Jones (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno'r adroddiad.

## 12. SAFLE TREULIAD ANAEROBIG GLANNAU DYFRDWY - PAPUR OPSIYNAU

Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio) a Hedd Vaughan-Jones (Pennaeth Gweithrediadau) i gyflwyno'r adroddiad.

**BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**02/02/2024**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cynghorwyr:- Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Charlie McCoubrey (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) (yn cadeirio).

Ymgynghorwyr – Dr Maria Hinfelaar (Prifysgol Wrecsam), Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes) a Paul Spencer (Prifysgol Bangor).

Prif Swyddogion – Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Neil Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

Swyddogion yn bresennol -

Awdurdod Lletya - Dewi A. Morgan (Swyddog Cyllid Statudol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol) a Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Uchelgais Gogledd Cymru - Alwen Williams (Cyfarwyddwr Portffolio), Hedd Vaughan-Evans (Pennaeth Gweithrediadau), Nia Medi Williams (Uwch Swyddog Gweithredol), Stuart Whitfield (Rheolwr Rhaglen Ddigidol), David Mathews (Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo) ac Elgan Roberts (Rheolwr Rhaglen Ynni)

Sylwedyddion – Bryn Richards (Llywodraeth y DU).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn) gyda'r Cynghorydd Robin Williams yn dirprwyo;
- Yana Williams (Coleg Cambria);
- Yr Athro Edmund Burke (Prifysgol Bangor) gyda Paul Spencer yn dirprwyo;
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd);
- Wendy Boddington (Sylwedydd, Llywodraeth Cymru) gyda Bryn Richards yn dirprwyo.

Croesawodd y Cadeirydd y dirprwyon i'r cyfarfod.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2023 fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2023 A'R ARCHWILIAD PERTHNASOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Cyllid.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwywyd Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer y BUEGC**
2. **Cymeradwywyd Datganiad o Gyfrifon terfynol y BUEGC (ôl archwiliad) am 2022/23.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gofyn i'r Cadeirydd ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig (Atodiad 1) wedi i'r BUEGC gymeradwyo'r uchod. Yna bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r Dystysgrif ar y cyfrifon.

**TRAFODAETH**

Cadarnhawyd bod y Datganiad Cyfrifon blynyddol wedi cael ei baratoi yn unol â'r Côd Ymarfer ar Gyfeiryddu mewn Awdurdodau Lleol, ac wedi ei wirio gan Archwilio Cymru. Nodwyd mai Archwilio Cymru yw archwilwyr allanol y Bwrdd Uchelgais, a'u bod wedi adolygu'r datganiadau. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni, pan fydd y Bwrdd wedi rhoi Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1. Eglurwyd yr angen i'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyllid Statudol arwyddo'r llythyr hwnnw cyn ei anfon ymlaen.

Eglurwyd bod Atodiad 3 yn cyfeirio at gywiriadau a wnaeth i'r cyfrifon yn ystod yr archwiliad. Manylwyd bod un cywiriad yn ganlyniad i gywiro gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr actwari o safbwynt gwybodaeth am yr ymrwymiad pensiwn. Esboniwyd bod yr ail gywiriad yn ymwneud ag eitem wedi ei gynnwys yn y datganiad llif arian lle na ddylai. Cadarnhawyd doedd dim effaith ar Gyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr na sefyllfa cau'r gronfa bensiwn wrth gefn.

Diolchwyd i swyddogion perthnasol Archwilio Cymru ac Adran Cyllid Cyngor Gwynedd am eu gwaith.

**6. CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2023/24 – ADOLYGIAD DIWEDD Rhagfyr 2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol.

**PENDERFYNWYD**

1. **Nodwyd a derbyniwyd adolygiad refeniw diwedd Rhagfyr 2023 y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 1).**
2. **Nodwyd a derbyniwyd diweddariad cronfeydd wrth gefn y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 2).**
3. **Cytunwyd ar broffil gwariant cyfalaf diwygiedig y Bwrdd Uchelgais (Atodiad 3).**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Rhagwelir tanwariant o £340,768 yn erbyn y gyllideb refeniw yn 2023/24. Defnyddir unrhyw danwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol i leihau'r swm a ddefnyddir o'r Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru.

Nodwyd llithriad ar y rhaglen gyfalaf, gydag amcangyfrif o wariant o £3.36m yn 2023/24 o'i gymharu â chyllideb gymeradwy o £11.25m ar gyfer y flwyddyn.

**TRAFODAETH**

Tywyswyd drwy adolygiad ariannol diwedd Rhagfyr 2023, gan gyfeirio at Atodiad 1 a oedd yn nodi gwir sefyllfa refeniw hyd at ddiwedd Rhagfyr ac yn amcanu'r sefyllfa hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Tynnwyd sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod gorwariant net o £33,000 ar y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda'r gorwariant pennaf ar weithwyr. Nodwyd bydd hwn yn cael ei ariannu gan incwm o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (a nodwyd fel incwm).
- Bod tanwariant o £35,000 ar Wasanaethau Cefnogol. Eglurwyd bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r gwariant cefnogaeth gyllidol allanol.
- Bod tanwariant o £39,000 ar y Cyd-bwyllgor oherwydd tanwariant o fewn meysydd 'cefnogaeth gyfreithiol allanol', 'ffioedd cyllidol' a'r 'Bwrdd Cyflawni Busnes'.
- Bod tanwariant net o £109,000 ar Brosiectau oherwydd tanwariant ar ddatblygu achosion busnes y prosiectau yn bennaf.

Adroddwyd ar ffynonellau incwm ar gyfer 2023/24 gan atgoffa'r Aelodau bod tanwariant o £267,000 wedi ei ragweld yn adolygiad Awst 2023. Eglurwyd bod y tanwariant hwn bellach wedi cynyddu i £341,000 ac felly awgrymwyd bod swm llai o'r fargen twf yn cael ei ddefnyddio er mwyn gadael sefyllfa niwtral i'r Bwrdd am y flwyddyn. Cadarnhawyd bydd y ffigwr hwn yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cadarnhawyd balansau'r cronfeydd fel a ganlyn:

- Balans y Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol ar 31 Mawrth 2023 oedd £552,000. Nodwyd bod £274,000 wedi ei ddyrannu yng nghyllideb eleni sydd yn gadael balans o £278,000.
- Balans y Gronfa Prosiectau ar 31 Mawrth 2023 oed £152,000 ac mae'n debygol na fydd symudiad ar y gronfa eleni.
- Balans y Gronfa Llog ar 31 Mawrth 2023 oedd £1.7miliwn. Eglurwyd y rhagwelir balans o tua £4.4miliwn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol wrth ychwanegu cyfraniadau llog y partneriaid o £251,000 ar gyfer 2023/24 ynghyd a tua £2.5miliwn o log ar y balansau (gan gynnwys Cronfa Bargen Twf) ar gyfer eleni yn cael ei ychwanegu i'r gronfa.

Adroddwyd bod gostyngiad o £7.89miliwn yn y gwariant disgwyliedig yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2023/24, o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2023. Eglurwyd bod hyn oherwydd gostyngiad pellach o £3.77miliwn i'r hyn a ragwelwyd yn adolygiad Awst 2023 yn dilyn gostyngiad ar bedwar prosiect.

Nodwyd ei fod yn annhebygol bydd y Bwrdd yn derbyn cyfraniad grant blynyddol o £20miliwn eleni ond cadarnhawyd bod swyddogion wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol i weithio ar ail-broffil cyfalaf. Eglurwyd os bydd hyn yn llwyddiannus, gallai olygu derbyn dyraniad grant Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn unol â gwariant yn hytrach nag fel cyfradd unffurf dros 10 mlynedd. Cydnabuwyd byddai hyn yn lleihau costau

benthyca'r Bwrdd ond bydd costau benthyca dal yn bodoli a hynny ar gyfer yr elfen sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd bydd costau benthyca yn deillio gan mai ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae'r taliad grant yn cael ei dderbyn yn hytrach nag yn ystod y flwyddyn fel mae'r gwariant yn cymryd lle.

Diolchwyd i'r Swyddogion am eu gwaith a'r adroddiad.

## 7. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISGIAU CHWARTER 3

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Gweithrediadau gyda chymorth y Rheolwr Rhaglen Digidol, Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo a'r Rheolwr Rhaglen Ynni.

**PENDERFYNWYD**

1. **Ystyriwyd a nodwyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 a Chofrestr Risg y Portffolio wedi'i diweddaru.**
2. **Cymeradwywyd cyflwyno Adroddiad Perfformiad Chwarter 3 i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae adroddiad chwarterol ar gynnydd yn erbyn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn un o ofynion Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf. Yn dilyn ystyriaeth gan y BUEGC, caiff yr adroddiadau eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a phwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd ar nifer o uchafbwyntiau Chwarter 3 gan gynnwys:

Adroddwyd y cynhaliwyd adolygiad Porth 2 ar gyfer prosiect Safleoedd Allweddol a Choridorau Cysylltiedig '4G+' ym mis Tachwedd gyda'r arolygwyr yn darparu asesiad 'Amber-Green' gyda sawl argymhelliad fel yr arfer. Nodwyd bod y Rheolwr Rhaglen Digidol yn gweithio i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn cyn cyflwyno'r achos busnes amlinellol i'w ystyried gan y Byrddau Portffolio ac Uchelgais Economaidd eleni.

Eglurwyd bod tri phrosiect y Gronfa Ffyniant Cyffredin ar fin rhedeg eleni er mwyn i'r Awdurdodau Lleol ganfod ffyrdd o wella darpariaeth symudol 4G yn eu rhanbarthau. Nodwyd bod y gwaith hefyd yn cynnig cymorth i fusnesau lleol ddeall opsiynau ar gyfer mabwysiadu technolegau digidol newydd ar gyfer y dyfodol.

Trafodwyd bod nifer o achosion busnes amlinellol ar y gweill ar hyn o bryd a bydd yr achosion busnes llawn yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd pan yn amserol.

Ymfalchïwyd bod dwy aelod newydd o staff wedi eu penodi er mwyn cynorthwyo fel Swyddog Prosiect Ynni a Rheolwr Prosiect Ynni. Nodwyd bod y penodiadau hyn yn gymorth i sicrhau bod prosiectau yn parhau i gael eu cyflawni yn amserol.

Darparwyd diweddariad ar nifer o brosiectau Tir ac Eiddo gan gynnwys Warren Hall, Porth y Gorllewin, Porth Caergybi, Parc Bryn Cegin, Stiwdios Kinmel a Porth Wrecsam.

Cydnabuwyd bod materion cynllunio yn parhau i fod yn risg sylweddol i brosiectau Bwyd, Amaeth a Thwristiaeth ar hyn o bryd. Nodwyd hefyd bod grŵp Tasg a Gorffen wedi ei sefydlu i archwilio'r bwlch amaeth a garddwriaeth yn y Cynllun Twf. Eglurwyd eu bod wedi

comisiynu rhywfaint o ymchwil sy'n edrych ar gyflenwad bwyd a'r galw yn y rhanbarth drwy gydweithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriwyd at Gofrestr Risg y Portffolio gan nodi bod risg y Cyd-destun Economaidd wedi cynyddu'r chwarter hwn. Eglurwyd bod y risg wedi ei ddiweddaru yn dilyn y rhyfeloedd yn y Dwyrain Canol ar hyn o bryd, gan ei fod yn gallu effeithio ar gostau gyflenwi nwyddau. Eglurwyd hefyd bod risg Oediad wedi lleihau yn y chwarter hwn gan fod nifer o achosion busnes amlinellol a llawn wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Er hyn, nodwyd, ei fod dal yn risg sylweddol a'i fod yn cael ei oruchwylio.

Yn dilyn cwestiwn am broject amlygwyd fod angen cyfeirio at wybodaeth fasnachol sensitif er darparu ateb. Ar gyngor cyfreithiol cynigwyd ac eiliwyd i barhau yn gaedidg ar gyfer yr agwedd benodol yma a chytunwyd i gymeradwyo'r penderfyniadau a geisiwyd.

**8. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar weddill Eitem 7 ac Eitem 9 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).**

**Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir, fodd bynnag, fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus, fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei chyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â materion ariannol a busnes ynghyd â thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r cyrff a'r Cynghorau ac yn tanseilio hyder rhai eraill sydd yn ymwneud â'r Cytundeb Twf i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau.**

**9. CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Tir ac Eiddo.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwywyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd, a Jones Bros Civil Engineering UK Ltd yn ymdrin â'r materion amlinellir yn yr adroddiad, fel y'u disgrifir yn Adran 7, ac yn argymell i'r Bwrdd Uchelgais fod Achos Busnes Llawn yn cael ei baratoi i'r Bwrdd ei ystyried.**
2. **Nodwyd, gan fod Jones Bros eisoes wedi'u caffael gan Gyngor Sir Ddinbych fel y datblygwr ar gyfer y safle, and oes prif gaffael sydd angen ei gwblhau cyn i'r Achos Busnes Llawn gael ei gymeradwyo. Mae'r Achos Masnachol yn nodi sut y bydd Jones Bros yn bodloni Egwyddorion Caffael Uchelgais Gogledd Cymru eu hunain a thrwy eu defnydd o isgontractwyr. Bydd angen i'r Cytundeb Ariannu sydd i'w ddatblygu gynnwys darpariaethau i ymdrin â'r trefniant hwn.**
3. **Awdurdodwyd i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya, i gytuno ar delerau drafft yn unol â'r adroddiad hwn i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais fel sail ar gyfer y trefniadau ariannu terfynol ar gyfer y prosiect a fydd yn ffurfio sail y Llythyr Cynnig Grant a gaiff ei gytuno gan y Bwrdd ar y cam Achos Busnes Llawn.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Cyn Ysbyty Gogledd Cymru.

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00yp a daeth i ben am 3.15yp.

Cadeirydd

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**15/03/2024**

**Teitl:** Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2024/25

**Awdur:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletya (Swyddog Cyllid Statudol)

Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol yr Awdurdod Lletya

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig Cyllideb Refeniw a Chyfalaf 2024/25 ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais).

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

**Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo:-**

**2.1 Cyllideb Refeniw 2024/25 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.**

**2.2 Cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid a chyfraniadau atodol awdurdodau lleol.**

**2.3 Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

**2.4 I ymestyn y contractau staff cyfnod penodol o mis Mawrth 2025 i mis Mawrth 2026.**

**3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad**

3.1 Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.

3.2 Mae Atodiad 1 yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.

3.3 Mae Atodiad 2 yn gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig fesul prosiect a'r cyllid cyfalaf cyfatebol ar gyfer y Cynllun Twf o £240m.

3.4 Mae Atodiad 3 yn rhoi crynodeb o gyllideb 2024/25 yn erbyn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2025/26.

**4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

4.1 Er y gallai'r Bwrdd Uchelgais ddod o dan pŵer llesiant economaidd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) yn ystod y flwyddyn ariannol, rhaid sefydlu cyllideb ar wahân ar gyfer swyddogaeth y Bwrdd ar hyn o bryd.

4.2 Dangosir y gyllideb refeniw fanwl arfaethedig ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 1 a dangosir y gyllideb gyfalaf arfaethedig yn Atodiad 2.

4.3 Gan fod Bargen Twf Gogledd Cymru yn mynd i mewn i'w chyfnod cyflawni allweddol, mae'r Cyfarwyddwr Portffolio wedi gofyn am ymestyn tan fis Mawrth 2026 gytundebau'r gweithwyr sydd ar gytundeb cyfnod penodol. Ni fydd angen cyfraniadau ychwanegol gan bartneriaid gan y bydd yn cael ei ariannu o'r ffynonellau ariannu cyfredol, fel ddangosir yn Atodiad 3.

<u>**Cyllideb Refeniw**</u>

4.4 <u>Swyddfa Rheoli Portffolio - £1,532,940</u>

Mae'r gyllideb ar gyfer y Swyddfa Rheoli Portffolio yn seiliedig ar 20 o weithwyr yn ogystal â swydd grant lleoliad myfyriwr tan fis Awst 2024, ac mae'n cynnwys cyllidebau ar gyfer hysbysebu ac asesu ymgeiswyr; teithio a chynhaliaeth; hyfforddiant; ymgysylltu a chyfarfodydd; cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus; cyflenwadau a gwasanaethau; eiddo; datblygu'r portffolio a'r rhaglenni.

4.5 <u>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol - £212,300</u>

Mae'r Corff Atebol yn darparu'r gwasanaethau cefnogol sydd eu hangen i hwyluso gwaith y Cyd-bwyllgor, ac mae'r gyllideb ar gyfer 2024/25 yn cynnwys Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid, Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro), Cefnogaeth Gorfforaethol, Technoleg Gwybodaeth (TG) ac Yswiriant.

4.6 Caiff amrediad y gwasanaethau a gynigir, y dulliau codi ffi a'r amcangyfrif costau eu cytuno gyda phob adran.

Cyd-Bwyllgor

4.7 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £18,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas â materion llywodraethu a pholisi.

4.8 Ffioedd Cyllidol Allanol - £10,000

Bydd y gyllideb hon yn ymdrin yn bennaf â'r mewnbwn gan ymgynghorwyr allanol trysorlys a phensiynau.

4.9 Ffi Archwilio Allanol - £27,520

Bydd y ffi hon yn cynnwys archwiliad o ddatganiad cyfrifon blynyddol llawn ynghyd ag Archwiliad Perfformiad, a bydd y rhain yn cael eu cynnal gan Archwilio Cymru fel yr Archwilydd Allanol.

4.10 Bwrdd Cyflawni Busnes - £15,000

Bydd y gyllideb yma yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwaith y Bwrdd Cyflawni Busnes.

Prosiectau

4.11 Mae ffigyrau'r gyllideb yn seiliedig ar y wybodaeth diweddaraf sydd ar gael, a bydd angen iddynt gael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r rhaglen gyfalaf ddatblygu.

4.12 Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau - £200,000

Mae pob un o'r prosiectau unigol angen Achos Busnes wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gyfrifol am ariannu'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais, a bydd hyn yn cynnwys gwaith arbenigol helaeth gan gwmnïau allanol.

4.13 Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol - £100,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith arbenigol mewn perthynas ag achosion busnes y prosiectau.

4.14 Cefnogaeth Caffael Allanol - £35,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer cefnogaeth caffael allanol sy'n angenrheidiol ar gyfer y prosiectau.

4.15 Sicrwydd - £40,000

Mae hyn yn cynnwys cyllideb ar gyfer Adolygiadau Porth y Llywodraeth ar gyfer y prosiectau sydd dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais ac Arianwyr y Prosiectau.

Cynlluniau grant - £772,560

4.16 Mae'r gwariant o dan y pennawd hwn yn cynnwys gwariant gweithwyr i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardal Leol sy’n cael eu hariannu gan grant penodol gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cynnwys gwariant ar gyfer gweithwyr a chynlluniau penodol sy’n cael eu hariannu’n uniongyrchol o Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol.

Cyfraniadau Ariannu

4.17 Cyfraniadau Partneriaid – (£463,080)

Yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 (GA2), mae Cyllideb 2024/25 yn cynnwys cyfraniad o £57,880 gan y chwe awdurdod lleol a £28,950 gan y pedwar ymgynghorydd, i roi cyfanswm cyfraniad o £463,080. Mae cyfraniadau'r partneriaid wedi cynyddu 4.6% i adlewyrchu chwyddiant alldro 2023/24 a’r chwyddiant cyflog arfaethedig ar gyfer 2024/25, yn unol â chymal 15.4.3 o’r GA2.

4.18 Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol - (£240,000)

Eto, yn unol â GA2, mae'r gyllideb yn cynnwys £40,000 gan y chwe awdurdod lleol i roi cyfanswm cyfraniad o £240,000.

4.19 Grant Cynllun Twf Gogledd Cymru - (£1,100,000)

Er bod grant Cynllun Twf Gogledd Cymru yn grant cyfalaf, mae 2.15% - sydd gyfwerth â £5.15m o grant Cynllun Twf Gogledd Cymru – wedi'i glustnodi i ariannu gwariant refeniw y Bwrdd Uchelgais, gyda £1.1m wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2024/25. Gellir cyflawni'r hyblygrwydd hwn yn yr un ffordd ag y mae gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i reoli cyllid eu rhaglenni cyfalaf eu hunain.

4.20 Grant Ynni Llywodraeth Cymru (£106,180)

Mae hwn yn ariannu'r gwariant ar y pennawd Prosiectau yn ogystal â chyfrannu tuag at ddau o’r swyddi Ynni yn y Swyddfa Rheoli Rhaglen.

4.21 Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (£973,600)

Mae hyn yn ariannu gwariant Ffyniant Gyffredin y DG ar weithwyr a chynlluniau penodol a dangosir o dan y pennawd Prosiectau yn ogystal â chyfrannu at gostau staff craidd y Swyddfa Rheoli Portffolio.

4.22 Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi – (£66,950)

Amcangyfrifir bod £277,927 yn y gronfa wrth gefn wedi’i chlustnodi ar 31 Mawrth 2024, ac ar ôl defnyddio £66,950 i ariannu cyllideb 2024/25, bydd £210,977 ar gael i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

**Cyllideb Gyfalaf**

4.23 Mae'r gyllideb gyfalaf yn seiliedig ar broffil gwariant wedi’i addasu yn ôl risg ar gyfer pob prosiect yn y Fargen dros y cyfnod 2021/22 hyd at 2034/35, ynghyd â'r brigdorri 2.15% i ariannu'r gyllideb refeniw dros yr un cyfnod.  Mae'n seiliedig ar amserlen ddiweddaraf y prosiectau, a chaiff ei hadolygu yn ystod y flwyddyn wrth i'r achosion busnes gael eu cymeradwyo.

4.24 Er bydd y gwariant o £240m yn cael ei ariannu o’r Fargen Twf, bydd amseriad derbyn y grant yn golygu y bydd angen benthyca yn y tymor byr.  Bydd y gost o fenthyca yn cael ei ariannu gan bartneriaid ac arianwyr prosiectau, ac mae partneriaid eisoes wedi bod yn cyfrannu swm blynyddol tuag at y costau hyn sydd wedi’i neilltuo mewn cronfa wrth gefn benodol.  Derbyniwyd llog sylweddol ar y balansau, a bydd hwn hefyd yn cael ei drosglwyddo i’r un gronfa.

4.25 Rydym wedi cael gwybod gan y ddwy Lywodraeth na fydd cyllid y Cynllun Twf yn cael ei dderbyn yn 2023/24 ac mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi bod yn trafod gyda’r ddwy lywodraeth, ac mae adroddiad wedi’i gyflwyno i Lywodraeth y DG ar y rhesymeg tu ôl i broffil ariannu diwygiedig ac ailddyrannu arian o eleni.

4.26 Fel mesur un tro ar gyfer 2024/25 ni fyddwn yn anfonebu’r partneriaid am gyfraniadau llog a byddwn yn adolygu eto lefel y cyfraniadau sydd eu hangen ar gyfer y blynyddoedd sy’n weddill wrth i fwy o wybodaeth ddod ar gael yn ystod y flwyddyn.

4.27 Gyda phrosiectau cyfalaf, mae bob amser risg o orwario, a rhoddir mesurau rheoli yn eu lle i gyfyngu costau gorwario ar brosiectau penodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gyfrifol am reoli gwariant a sicrhau bod cyllidebau wrth gefn digonol wedi'u cynnwys yn achosion busnes y prosiectau. Byddai gorwariant yn fater i arianwyr y prosiectau ymdrin ag ef mewn perthynas a'u prosiectau nhw.

**Adnoddau Swyddfa Rheoli Portffolio**

4.28 Mae’r rhan fwyaf o staff y Swyddfa Rheoli Portffolio (ac eithrio 7 swydd barhaol) yn cael eu cyflogi ar gytundebau cyfnod penodol tan fis Mawrth 2025, ac er mwyn lliniaru’r risg o staff yn gadael pan fydd Bargen Twf Gogledd Cymru yn mynd i’w chyfnod cyflawni allweddol, mae’r Cyfarwyddwr Portffolio wedi gofyn i’w contractau gael eu hymestyn tan fis Mawrth 2026.  Ni fydd hyn yn berthnasol i’r aelodau staff hynny sy’n cael eu hariannu gan grantiau penodol (e.e. Ynni a Cronfa Ffyniant Gyffredin) gan fod eu cyfnodau cytundeb yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chyfnod y grant.  Mae’r cyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG y mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi’i dderbyn yn 2023/24 ac a fydd yn cael ei dderbyn yn 2024/25 tuag at staff craidd y Swyddfa Rheoli Rhaglen wedi lleihau gofyniad y Cyllid Bargen Twf a ddyrannwyd yn wreiddiol yn ystod y blynyddoedd hyn, ac felly mae wedi caniatáu i’r cyllid gael ei ailddyrannu i’r blynyddoedd dilynol.  Ni fydd angen cyfraniadau ychwanegol gan bartneriaid wrth ymestyn y cytundebau staff hyd at Mawrth 2026 gan y bydd yn cael ei ariannu o’r ffynonellau ariannu cyfredol (Atodiad 3).

**5. Y Cyd-destun Llywodraethol**

5.1 Mae angen i'r corff atebol baratoi'r Gyllideb Flynyddol ac mae angen i Gyd-bwyllgor y Bwrdd Uchelgais gytuno iddi.

5.2 Mae'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi'i pharatoi ar sail y rolau, y gweithgareddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u hadnabod hyd yma, gyda'r disgwyl i lefel yr adnoddau a glustnodir gael ei hadolygu'n barhaus a chaiff ei diweddaru wrth i'r prosiectau fwrw ymlaen ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i law.

5.3 Caiff adroddiadau monitro cyllidebau rheolaidd eu cyflwyno i staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. Gwneir adolygiad manwl pellach ddiwedd Awst 2024 a Rhagfyr 2024 a'i gyflwyno i'r Bwrdd Portffolio a’r Bwrdd Uchelgais Economaidd, a chaiff unrhyw faterion eu hamlygu a chamau priodol eu cymryd.

**6. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

6.1 Cyflwynwyd Atodiadau 1,2 a 3 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad hwn i’r Bwrdd Portffolio ar 23 Chwefror 2024.

**7. ASESIAD ARDRAWIAD**

7.1 Mae’r Bwrdd Uchelgais yn ddarostyngedig i ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.2 Yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid i’r Bwrdd Uchelgais dalu sylw dyledus i’r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod gosod cyllideb yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae’r dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Gan fod pob prosiect yn destun achos busnes manwl iawn yn unol â'r canllawiau ‘Achos Busnes Gwell’ a ddatblygwyd

gan Thrysorlys EF a Llywodraeth Cymru, ni ystyrir bod unrhyw effeithiau penodol yn deillio o'r penderfyniadau a gyflwynir.

7.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd , amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni saith o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar gyfer 2024/25.

Atodiad 2 - Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25.

Atodiad 3 – Cyllideb Refeniw 2024/25 a Chyllideb Refeniw Drafft 2025/26.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25.** **Atodiad 1**

| **Gwariant** | **(£)** |
|---|---|
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 1,395,940 |
| Hysbysebu ac Asesu Ymgeiswyr | 3,000 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 11,000 |
| Hyfforddiant | 11,000 |
| Ymgysylltu a Chyfarfodydd | 10,000 |
| Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus | 25,000 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 11,000 |
| Eiddo | 36,000 |
| Datblygu Portffolio a Rhaglenni | 30,000 |
| **Cyfanswm Swyddfa Rheoli Portffolio** | **1,532,940** |
| **Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 110,860 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 29,690 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 45,700 |
| Technoleg Gwybodaeth | 21,920 |
| Yswiriant | 4,130 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol** | **212,300** |
| **Cyd-Bwyllgor** | |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 18,000 |
| Ffioedd Cyllidol Allanol | 10,000 |
| Ffi Archwilio Allanol | 27,520 |
| Bwrdd Cyflawni Busnes | 15,000 |
| **Cyfanswm Cyd-Bwyllgor** | **70,520** |
| **Prosiectau** | |
| Datblygu Achosion Busnes y Prosiectau | 200,000 |
| Cefnogaeth Gyfreithiol Allanol | 100,000 |
| Cefnogaeth Caffael Allanol | 35,000 |
| Sicrwydd | 40,000 |
| **Cyfanswm Prosiectau** | **375,000** |
| **Cynlluniau grant** | |
| Gwariant gweithwyr - Prosiect Ynni Ardal Leol | 99,420 |
| Gwariant gweithwyr - Cronfa Ffyniant Gyffredin | 122,640 |
| Cynlluniau Ffyniant Gyffredin | 550,500 |
| **Cyfanswm Cynlluniau grantiau** | **772,560** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,963,320** |

**Cyllideb Refeniw Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25.**

| Incwm | (£) |
|---|---|
| **Cyfraniadau Ariannu** | |
| | |
| **Cyfraniadau Partneriaid** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (57,880) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (57,880) |
| Cyngor Sir y Fflint | (57,880) |
| Cyngor Gwynedd | (57,880) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (57,880) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (57,880) |
| Prifysgol Bangor | (28,950) |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | (28,950) |
| Coleg Cambria | (28,950) |
| Grŵp Llandrillo Menai | (28,950) |
| | |
| **Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol** | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (40,000) |
| Cyngor Sir Ddinbych | (40,000) |
| Cyngor Sir y Fflint | (40,000) |
| Cyngor Gwynedd | (40,000) |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (40,000) |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (40,000) |
| | |
| **Eraill** | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,100,000) |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (106,180) |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | (973,600) |
| Grant Llywodraeth Cymru - Lleoliad Myfyrwyr | (13,510) |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (66,950) * |
| | |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,963,320)** |
| | |
| **Cyllideb Net** | **0** |

** Bydd hyn yn gadael amcan balans o £210,977 yn y gronfa wrth gefn.*

**Cyllideb Cyfalaf y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2024/25 (wedi'i addasu yn ôl risg).** **Atodiad 2**

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y Prosiect | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) | 2027/28 (£m) | 2028/29 (£m) | 2029/30 (£m) | 2030/31 (£m) | 2031/32 (£m) | 2032/33 (£m) | 2033/34 (£m) | 2034/35 (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Digidol | Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | 0.12 | 1.66 | 0.37 | 0.81 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Digidol | Safleoedd a Choridorau Allweddol Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.50 | 4.00 | 2.00 | 2.37 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Digidol | Campws Cysylltiedig | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.94 | 10.10 | 4.93 | 4.71 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 20.68 |
| Digidol | Cysylltu ychydig ganrannau olaf | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.32 | 1.85 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.17 |
| Ynni carbon isel | Cydnerth (Morlais) | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.33 | 4.44 | 1.10 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.87 |
| Ynni carbon isel | Egni (Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel) | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.97 | 1.97 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.94 |
| Ynni carbon isel | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.50 | 2.50 | 5.00 | 5.70 | 5.00 | 0.00 | 19.70 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.61 | 5.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.23 |
| Ynni carbon isel | Ynni Lleol Blaengar | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.75 | 3.00 | 9.25 | 9.25 | 2.38 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 24.63 |
| Ynni carbon isel | Gwastraff i Danwydd Glannau Dyfrdwy* | The Circular Economy Ltd | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.20 | 3.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.40 |
| Ynni carbon isel | Hwb Hydrogen Caergybi* | Menter Môn | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.90 | 1.90 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.64 | 17.00 | 9.83 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 34.47 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Warren Hall | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.38 | 7.39 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 14.77 |
| Tir ac eiddo | Safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.90 | 3.04 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.94 |
| Tir ac eiddo | Safle Strategol Parc Bryn Cegin | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 5.91 |
| Tir ac eiddo | Porth Gorllewinol, Wrecsam | BUEGC | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.48 | 4.48 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 8.96 |
| Tir ac eiddo | Stiwdio Kinmel* | Stage Fifty | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 3.40 | 3.40 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.80 |
| Tir ac eiddo | Porth Wrecsam* | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.79 | 2.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.79 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.96 |
| Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.27 | 4.28 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.55 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Hwb Economi Wledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 7.20 | 4.62 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 11.82 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.13 | 2.30 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 4.43 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Anturiaethau Cyfrifol* | Zip World | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 2.30 | 3.70 | 0.20 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 6.20 |
| 2.15% ar gyfer ariannu cyllideb refeniw y BUEGC | | | 0.22 | 0.28 | 0.68 | 1.10 | 1.15 | 0.70 | 0.30 | 0.15 | 0.15 | 0.10 | 0.10 | 0.10 | 0.07 | 0.05 | 5.15 |
| **Cyfanswm Rhaglen** | | | **0.34** | **1.94** | **1.05** | **24.67** | **58.68** | **68.53** | **44.81** | **19.71** | **1.65** | **2.60** | **5.10** | **5.80** | **5.07** | **0.05** | **240.00** |

**Prosiectau newydd* (the asterisk marks new projects)

**Cyllideb Refeniw 2024/25 a Chyllideb Refeniw Drafft 2025/26.** **Atodiad 3**

| | 2024/25 £ | 2025/26 £ | |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Swyddfa Rheoli Portffolio | 1,532,940 | 1,569,710 | |
| Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol | 212,300 | 209,480 | |
| Cyd-Bwyllgor | 70,520 | 70,520 | |
| Prosiectau | 375,000 | 147,500 | |
| Cynlluniau grant | 772,560 | 0 | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **2,963,320** | **1,997,210** | |
| **Incwm** | | | |
| Cyfraniadau Partneriaid | (463,080) | (486,220) | |
| Cyfraniadau Atodol Awdurdodau Lleol | (240,000) | (240,000) | |
| Grant Bargen Twf Gogledd Cymru | (1,100,000) | (1,150,000) | |
| Grant Ynni Llywodraeth Cymru | (106,180) | 0 | |
| Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG | (973,600) | 0 | |
| Grant Llywodraeth Cymru - Lleoliad Myfyrwyr | (13,510) | 0 | |
| Cyfalafu amser staff | 0 | (60,000) | |
| Cronfa Wrth Gefn wedi'i Chlustnodi | (66,950) | (60,990) | * |
| **Cyfanswm Incwm** | **(2,963,320)** | **(1,997,210)** | |
| **Cyllideb Net** | 0 | 0 | |

** Bydd hyn yn gadael amcan balans o £149,987 yn y gronfa wrth gefn.*

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**15 Mawrth, 2024**

**TEITL:** Strategaeth Fuddsoddi

**AWDUR:** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r strategaeth fuddsoddi a'r cynllun ar gyfer denu Cynllun Twf a datblygiad economaidd rhanbarthol ehangach yng Ngogledd Cymru. Mae'r strategaeth yn cynnwys yr egwyddorion buddsoddi a gytunwyd arnynt gan y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2023 ac yn seiliedig ar ymchwil a dadansoddiad a gynhaliwyd gan ymgynghoriaeth Savills ar ran Uchelgais Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cyflawni Busnes.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y Bwrdd, gan dderbyn bod gwireddu rhai agweddau yn amodol ar sicrhau cyllideb, yn cymeradwyo'r Strategaeth Fuddsoddi fanwl sy'n cynnwys yr egwyddorion a'r cynllun.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r strategaeth a chynllun i ddenu buddsoddiad yn adeiladu ar y sicrwydd o'n huchelgais ar y cyd i gyflawni'r Cynllun Twf gwerth £1bn ar gyfer Gogledd Cymru.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Mae gan y pum rhaglen Cynllun Twf gyfanswm targed buddsoddi cyfalaf o £1biliwn.

4.2. O'r cyfanswm hwn, mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £240 miliwn ac mae disgwyl i £760 miliwn o gyfalaf ychwanegol ddod o ffynonellau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Bydd y buddsoddiad ar y cyd yn cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth dros dymor o ddeg i bymtheg mlynedd.

4.3. Mae'r ymrwymiad a'r amcan ariannol ar y cyd yma'n hanfodol i wella isadeiledd y rhanbarth, a thrwy hynny greu cyfle mwy deniadol i'r sector fusnes. Mae'r dull nid yn unig yn ehangu ein cryfderau rhanbarthol ond mae hefyd yn rhoi hwb cystadleuol sylweddol i ni ym marchnad y DU cyfan ac yn fyd-eang. Mae'r Cynllun Twf yn gosod sylfaen gadarn i economi Gogledd Cymru ffynnu a sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n rhagori ar ei hamcanion buddsoddi cychwynnol.

4.4. Datblygwyd y strategaeth fuddsoddi yn **Atodiad 1** mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Cyflawni Busnes a'r Bwrdd Portffolio ac mae wedi'i lunio ar gefn ymchwil a gynhaliwyd gan ymgynghoriaeth Savills a werthusodd y dirwedd fuddsoddi a'r ystyriaethau a'r cyfleoedd allweddol i ddenu buddsoddiad y sector preifat i Ogledd Cymru.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd angen sicrhau cyllideb ar gyfer amcanion buddsoddi 5, 6 a 7 o fewn y strategaeth. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i amcangyfrif na'i sicrhau eto.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol o'r penderfyniad a geisir.

**7. ASESIADAU EFFAITH**

**7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn cefnogi yn y broses o gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Nod Uchelgais Gogledd Cymru drwy ei bortffolio o raglenni a phrosiectau, ynghyd â'r prosesau a roddwyd ar waith, yw sicrhau y bydd y Cynllun Twf yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r 7 nod llesiant. Bydd y strategaeth fuddsoddi yn sicrhau bod ein dull o sicrhau buddsoddiad ar gyfer y Cynllun Twf yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**7.2. Deddf Cydraddoldeb 2010**

Bydd y Cynllun Twf yn cael effaith niwtral ar gydraddoldeb yn erbyn yr 11 nodwedd warchodedig. Mae prosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, gyda'r ffocws ar ymgysylltu er mwyn sicrhau effaith bositif ar y rhai sydd o dan anfantais yn ôl rhyw, anabledd, ethnigrwydd neu oedran.

**7.3. Deddf Yr Iaith Gymraeg**

Bydd cyflawni'r Cynllun Twf yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, gan fynd ati i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y rhanbarth.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Buddsoddi yng Ngogledd Cymru: Dull o sicrhau buddsoddiad |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

i. **Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

"Mae denu buddsoddiad y sector preifat yn agwedd allweddol o fodel y Cynllun Twf. Yng ngoleuni y cyd-destun newidiol ar gyfer y Cynllun Twf, mae'n briodol fod y Bwrdd yn mabwysiadu strategaeth gyfoes i ddatblygu a symud yr agwedd hon ymlaen."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

"Rwyf yn croesawu'r Strategaeth Fuddsoddi ac yn cefnogi'r egwyddor o'i sefydlu. Fodd bynnag, nodaf o'r ddogfen nad oes ffynonellau ariannu wedi cael eu hadnabod eto ar gyfer gwireddu Amcanion 5, 6 a 7. Bydd swyddogion Cyllid yn cefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio gyda'r gwaith yma yn ôl yr angen."




# Buddsoddi yng Ngogledd Cymru

## Dull o sicrhau buddsoddiad

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Fersiwn 1.0 Drafft

Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad | Golygydd | Manylion |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 08/02/2024 | Alwen Williams | Drafft 1af |
| | | | |
| | | | |

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Diben | 1 |
| 2. | Cyflwyniad | 1 |
| 3. | Trosolwg Strategol | 2 |
| | Dadansoddiad o Fuddsoddiad Rhaglen y Cynllun Twf | 3 |
| | Dadansoddiad o Fuddsoddiad Prosiect y Cynllun Twf | 4 |
| 4. | Egwyddorion y Strategaeth Fuddsoddi | 5 |
| 5. | Y Dirwedd Fuddsoddi | 6 |
| 6. | Cynllun Gweithredu'r Buddsoddiad | 7 |
| | Amcanion | 7 |
| | Dull a Chynllun Gweithredu | 8 |
| 7. | Cyllideb a Gofynion Adnoddau | 12 |
| 8. | Mesur Canlyniadau | 12 |
| 9. | Risgiau a Chamau Lliniaru | 13 |
| 10. | Llywodraethu | 13 |
| 11. | Adrodd, Mesur a Monitro | 13 |
| 12. | Casgliad | 13 |
| ATODIADAU | | 14 |
| | Atodiad 1: Dadansoddiad SWOT | 14 |




Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

# 1. Diben

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r strategaeth lefel portffolio, yr egwyddorion a'r cynllun a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO), i gydlynu a rheoli gweithgarwch gan bartneriaid a noddwyr y prosiect i drosoli'r buddsoddiad sector preifat angenrheidiol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru sy'n werth £1bn. Mae'r strategaeth hefyd yn cydnabod y cyfleoedd buddsoddi ehangach ar gyfer y rhanbarth.

1.2 Mae'n adeiladu ar gyhoeddiad Cenhadaeth Economaidd newydd Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer Economi Gryfach[1] sy'n amlinellu'r ffocws sydd ei angen ar gyfer economi Gymreig gryfach, decach a gwyrddach, gyda'r nod o roi'r hyder i bobl ifanc gynllunio dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Mae'r Cynllun Twf yn esiampl o gydweithio ar draws llywodraethau, y sector cyhoeddus a'r sector preifat i adeiladu economi fwy llewyrchus yn seiliedig ar swyddi cynaliadwy a gwaith teg.

1.3 Comisiynwyd prosiect ymchwil, a gynhaliwyd gan gwmni ymgynghorol Savills, i lywio'r dull buddsoddi rhanbarthol hwn. Gwneir ystyriaethau ac argymhellion allweddol i adnabod, datgloi a dal buddsoddiad y sector preifat i ystod eang o gyfleoedd economaidd. Cynhaliodd Savills ymgysylltiad helaeth gyda rhanddeiliaid sydd wedi arwain at ddatblygu saith egwyddor buddsoddi allweddol sy'n sail i'n cryfderau a'n cyfleoedd i fuddsoddi. Asesodd yr ymchwil y farchnad economaidd, buddsoddi ac eiddo.

# 2. Cyflwyniad

2.1 Mae gan Uchelgais Gogledd Cymru gysylltiad a pherthynas hir gyda'r sector preifat. Roedd Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi Dyfrdwy yn bartner allweddol wrth ddatblygu portffolio'r Cynllun Twf tan ddiwedd 2020 pan ail-flaenoriaethwyd eu sylw gan Covid. Mae'r Bwrdd Cyflawni Busnes, fel corff cynghori, yn cael ei gynrychioli gan sylfaenwyr ac uwch aelodau o sefydliadau sector preifat ar draws sectorau diwydiant allweddol ac mae'n hollbwysig o fewn strwythur cyflawni'r Cynllun Twf. Ac mae gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru sy'n rhan o Uchelgais Gogledd Cymru gyrhaeddiad eang i fyd diwydiant ac addysg i lywio ein cynlluniau sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r cydweithio hwn yn meithrin aliniad rhwng prosiectau'r Cynllun Twf a'r sectorau busnes yng Ngogledd Cymru.

2.2 Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ar y cyd, trwy gytundeb y Cynllun Twf, i fuddsoddi £240 miliwn o gyfalaf i helpu i ddatgloi potensial economi gogledd Cymru. Targedir £760 miliwn pellach o gyfalaf ychwanegol o ffynonellau sector cyhoeddus a phreifat eraill. Ar y cyd, bydd y buddsoddiad yn cyfrannu at dwf economaidd y rhanbarth erbyn 2036.


2.3 Mae'r Cynllun Twf yn bortffolio hirdymor, mawr ac amrywiol o brosiectau trawsnewidiol a fydd yn esblygu ac yn newid dros gyfnod o amser. Bydd y portffolio'n parhau i esblygu ac o'r herwydd mae'r strategaeth a'r cynllun buddsoddi yn ystwyth a gall fod yn hyblyg i ymateb i newid ar lefel prosiect, h.y. rhoi'r gorau i brosiectau neu brosiectau'n peidio â bod yn ddichonadwy.

[1] Llywodraeth Cymru: Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach - [Cenhadaeth economaidd: blaenoriaethau ar gyfer economi gryfach]

# 3. Trosolwg Strategol

3.1 Mae Uchelgais Gogledd Cymru o dan arweiniad y Bwrdd Uchelgais Economaidd wedi dynodi ei drosolwg strategol a ategir yn gyfan gwbl gan y weledigaeth, y genhadaeth a'r gwerthoedd cyffredin.

Diagram 1: Crynodeb o'r Trosolwg Strategol



## Dadansoddiad o Fuddsoddiad Rhaglen y Cynllun Twf

3.2 Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth trwy bortffolio o bum rhaglen, pob un yn cynnwys set o brosiectau. Mae Achos Busnes y Portffolio yn nodi'r amcanion buddsoddi ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru, sef:

- creu hyd at 4,200 o swyddi newydd.
- ychwanegu at yr economi hyd at £2.4bn mewn GVA ychwanegol net.
- cyflawni cyfanswm buddsoddiad o dros £1bn.

Mae'r dull o gyflawni'r amcanion hyn yn ddibynnol ar bartneriaeth gref a chydweithredol gyda llywodraethau a'r sector preifat.

3.3 Mae'r buddsoddiad wedi'i dargedu at y sectorau diwydiannol sy'n bwysig yn strategol, trwy bum rhaglen y portffolio, mewn dau gategori;

a) y rhai hynny sy'n cynyddu gwerth sectorau twf uchel:
   - Rhaglen ynni carbon isel
   - Rhaglen arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch
   - Rhaglen Bwyd-amaeth a thwristiaeth

b) y rhai hynny sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i dwf:
   - Rhaglen tir ac eiddo
   - Rhaglen ddigidol

3.4 Mae'r Cynllun Twf yn ceisio gwneud y mwyaf o fuddsoddiad ar draws y portffolio i gyflawni twf economaidd cynaliadwy ar gyfer gogledd Cymru.

Cyflwynir dadansoddiad o'r rhaniad buddsoddiad a ragwelir, yn Nhabl 1.1

| | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall (£m) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£m) |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ddigidol | 36.7 | 0.1 | 0.4 | 37.2 |
| Rhaglen Ynni Carbon Isel | 78.5 | 247.8 | 157.0 | 483.3 |
| Rhaglen Tir ac Eiddo | 82.7 | 2.0 | 362.2 | 446.9 |
| Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Uwch | 14.5 | 5.4 | 0.0 | 19.9 |
| Rhaglen Bwyd-amaeth a Thwristiaeth | 22.5 | 11.7 | 8.0 | 42.2 |
| CYFANSWM Y CYNLLUN TWF | 234.8 | 267.0 | 527.6 | 1029.5 |


** Dyrennir gweddill o £240m i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio*

Tabl 1.1: Rhaglen y Cynllun Twf - dadansoddiad gofynnol o'r cyllid.

3.5 Mae'r Cynllun Twf, sy'n gweithredu fel catalydd ar gyfer ffyniant economaidd hirdymor, yn dibynnu ar fuddsoddiad, fel yr amlinellwyd, gan y sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r ymrwymiad ariannol ar y cyd hwn yn hollbwysig i wella seilwaith y rhanbarth, a thrwy hynny greu cyfle mwy deniadol i'r sector busnes. Mae'r dull hwn nid yn unig yn cynyddu ein cryfderau rhanbarthol ond hefyd yn rhoi hwb sylweddol i'n gallu i gystadlu o fewn y farchnad yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'r Cynllun Twf yn gosod sylfaen gadarn i economi gogledd Cymru ffynnu a darparu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n rhagori ar ei hamcanion buddsoddi cychwynnol.

## Dadansoddiad o Fuddsoddiad Prosiect y Cynllun Twf

3.6 Mae'r Cynllun Twf yn cynnwys 23 prosiect ar draws pum rhaglen. Y prif lywiwr ar eu cyfer yw cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol hirdymor i ogledd Cymru yn unol â'r deilliannau strategol a nodir yn achos busnes y portffolio.




Ffigurau mewnol – cyfanswm buddsoddiad y Cynllun Twf
Ffigurau allanol - cyfanswm buddsoddiad arall

Diagram 2: Dadansoddiad o Fuddsoddiad y Prosiect

3.7 Mae angen cyfanswm o £760 miliwn o fuddsoddiadau sector cyhoeddus a phreifat eraill i gyrraedd targed buddsoddi'r portffolio o £1 biliwn. Bydd y rhaglen a phrosiectau Ynni Carbon Isel yn cyflawni 58 y cant o'r targed hwn a Thir ac Eiddo 32 y cant. Rhennir y 10 y cant sy'n weddill ar draws y tair rhaglen arall.

3.8 Mae Achos Busnes y Portffolio[2] (Tabl 1.4) yn amlinellu'r rhesymeg a'r broses, yn ystod 2023, a arweiniodd at argymhelliad i bum prosiect newydd dderbyn cyllid Cynllun Twf, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Argymhellwyd i'r pum prosiect newydd dderbyn cymorth wedi iddynt gael eu hasesu yn erbyn enillion buddsoddi, swyddi net, ansawdd, diwydrwydd dyladwy ariannol a gwybodaeth rheoli cymhorthdal. Mae hyn yn dangos y newid yn natur portffolio'r Cynllun Twf.

3.9 Mae achos ariannol Achos Busnes y Portffolio (Adran 4) yn amlinellu'r gofynion cyfalaf allweddol ar lefel prosiect, gan gynnwys dadansoddiad lefel prosiect o sefyllfa buddsoddiad y sector preifat. Mae newidiadau ym mhroffil gwariant y rhaglen, a grynhoir yn Niagram 3, yn dangos effaith y newidiadau i'r prosiectau, y cymeradwyaethau, ac oedi prosiectau. Mae'r Cynllun Twf yn dal ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed buddsoddi (£1bn); fodd bynnag, rhagwelir bellach y bydd hyn yn cael ei gyrraedd yn 2032/33 yn hytrach na 2027/28 fel ag a nodwyd ym mhroffil portffolio 2021.





Diagram 3: Proffil gwariant y rhaglen

# 4. Egwyddorion y Strategaeth Fuddsoddi

4.1 Mae'r egwyddorion allweddol a ganlyn yn sail i'r strategaeth ar gyfer buddsoddi a datblygiad cynaliadwy economaidd rhanbarthol ehangach yng ngogledd Cymru. Mae pob un yn ganllaw i ategu ein cryfderau a'n cyfleoedd i fuddsoddwyr.

4.2 Gyrru **cydweithio** - Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn chwarae rhan ganolog wrth uno rhanddeiliaid rhanbarthol - i gyflwyno croeso 'Tîm Gogledd Cymru' cydlynol a chydweithredol i ddarpar fuddsoddwyr, meithrin perthnasoedd a throsoli cyfleoedd ar draws ffiniau.

2 Nid yw'r Achos Busnes Portffolio yn ddogfen gyhoeddus oherwydd gwybodaeth fasnachol sensitif.

4.3 Adeiladu **ar ein cryfderau** - rydym yn blaenoriaethu ein pobl, sgiliau, diwylliant, iaith a threftadaeth, ac yn manteisio ar ein sectorau ynni diwydiannol a charbon isel, gan wahodd buddsoddwyr i ymuno â ni i greu partneriaethau effeithiol sy'n pwysleisio gwerth cymdeithasol a buddion cymunedol.

4.4 Hyrwyddo **ein safleoedd magned fel sylfeini ar gyfer twf rhanbarthol** - amlygu eu potensial ar gyfer buddsoddiadau newydd, sgiliau a chydweithredu, a dangos ein parodrwydd ar gyfer busnes.

4.5 Cyfoethogi **ein gweledydd i ddatgloi buddsoddiad** - rydym yn ymrwymo i ddatblygu a marchnata cyfleoedd buddsoddi strategol, gan eu hyrwyddo'n weithredol i bontio bylchau mewn gwybodaeth a grymuso ymgysylltiad hyderus ac effeithiol gyda buddsoddwyr.

4.6 Adeiladu **maint y cyfleoedd** - ein nod yw targedu sbectrwm eang o fuddsoddwyr, o'r lleol i'r rhyngwladol. Trwy becynnu cynlluniau i greu cyfleoedd ar raddfa sylweddol, gallwn gyflawni prosiectau sy'n debygol o apelio mewn marchnad ehangach o fuddsoddwyr.

4.7 Hyrwyddo **canol ein trefi** - mae canol trefi deinamig yn hanfodol i gefnogi datblygiad economïau trwy'r flwyddyn a mynd i'r afael â heriau'r farchnad lafur. Byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r cyfle ar gyfer buddsoddiad a phartneriaethau parhaus sy'n trawsnewid ein trefi.

4.8 Meithrin **cyfle trwy ddatblygiad strategol** - rydym yn ymrwymo i wrthdroi'r duedd o ddirywiad yn y boblogaeth ac allfudo pobl fedrus trwy gyd-greu a chyflawni cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol a datblygu strategol sy'n creu cymunedau ffyniannus, hygyrch sydd wedi eu cysylltu'n dda.

# 5. Y Dirwedd Fuddsoddi

5.1 Penodwyd cwmni ymgynghorol Savills i gynnal Dadansoddiad Ymchwil Buddsoddi i lywio datblygiad y strategaeth hon. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar y farchnad fuddsoddi bresennol, rhwystrau i fuddsoddi, ac yn awgrymu ystod o ymyriadau a allai gefnogi Uchelgais Gogledd Cymru a phartneriaid i ddatgloi buddsoddiad pellach. Er bod ffocws ar ardaloedd y Cynllun Twf, mae lle ehangach i'r argymhellion ystyried cyfleoedd buddsoddi ar draws economi gogledd Cymru i gyd.

5.2 **Rhwystrau i Fuddsoddi yng Ngogledd Cymru**

Mae'r ymchwil wedi adnabod nifer o rwystrau i fuddsoddiad gan y sector preifat yng ngogledd Cymru. Maent yn cynnwys:

- **Graddfa a gwerth** - Graddfa gyfyngedig neu ffocws cyfyngedig ar gyfleoedd gwerth uchel sy'n denu buddsoddwyr i dorri i mewn i farchnad newydd, neu'n cyflwyno'r achos dros fuddsoddiad hirdymor (e.e. Gofod Gradd A, neu £500m + buddsoddiadau ac ati);
- **Risg ac ansicrwydd** - Gall tystiolaeth marchnad gyfyngedig o alw, cyflawni, neu werthoedd uchel yn cael eu datgloi, gynyddu'r risg i ddatblygwyr sy'n ystyried costau cynyddol a materion yn ymwneud â gweithlu cyfyngedig a'r gadwyn gyflenwi.
- **Bylchau mewn gwybodaeth ac adnabyddiaeth** - Dealltwriaeth wael o asedau cyfredol, y llwybrau i gyflawni prosiectau mawr, bylchau ariannu, neu raddfa potensial ac effaith buddsoddi.

- **Natur arbenigol rhai cyfleoedd** - Mae llawer o'r cyfleoedd ar raddfa fawr yn arbenigol iawn mewn gweithgynhyrchu uwch, prosiectau carbon isel sy'n dod i'r amlwg, neu dechnolegau digidol sydd angen cyngor arbenigol i ddeall y cynlluniau arfaethedig a'r proffil buddsoddi.
- **Cydlyniad ar draws y sector cyhoeddus** - Bylchau yn y cysylltiadau rhwng llywodraeth leol, ranbarthol a chenedlaethol o ran cydlynu cymorth, a darparu cymorth ar raddfa fawr ac mewn ffordd wedi'i thargedu.
- **Cyflymder yr ymateb** - Gallai oedi posib wrth wneud penderfyniadau, amserlenni ar gyfer ymateb, neu sicrwydd cyfeiriad fod wedi arwain at gyfleoedd yn mynd i rywle arall.
- **Buddsoddiad cyhoeddus** - Canfyddiadau o fuddsoddiad cyhoeddus cyfyngedig mewn ansawdd creu lleoedd, neu gyflawni dyraniadau i gefnogi twf.

# 6. Cynllun Gweithredu'r Buddsoddiad

## Amcanion

6.1 Nod yr amcanion a ganlyn yw annog cydweithio rhanbarthol yn effeithiol a cheisio adnabod cyfleoedd a bygythiadau posib sy'n gysylltiedig â sicrhau buddsoddiad sector preifat yng ngogledd Cymru.

| AMCANION Y STRATEGAETH FUDDSODDI: | |
|---|---|
| **Teitl** | **Nod** |
| **1. Dadansoddiad Ymchwil** | Comisiynu astudiaeth ddadansoddi ymchwil buddsoddi annibynnol yn 2023 i lywio cynllun gweithredu rhanbarthol manylach. Dylai'r cynllun gweithredu fod yn seiliedig ar yr egwyddorion buddsoddi allweddol a'i adnabod gan effaith, cost ac amserlen i gefnogi cyflawniad y buddsoddiad sector preifat sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus a chyfleoedd buddsoddi ehangach. |
| **2. Egwyddorion Buddsoddi** | Cytuno ar egwyddorion y Cynllun Twf ar gyfer buddsoddi. |
| **3. Grŵp Buddsoddi** | Sefydlu Grŵp Buddsoddi Rhanddeiliaid sector Preifat-Cyhoeddus i yrru'r cyfleoedd buddsoddi yn eu blaenau. |
| **4. Cyfathrebu ac Ymgysylltu** | Dyfeisio, mabwysiadu a gweithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu i ysgogi buddsoddiad yng ngogledd Cymru. |
| **5. Cyfathrebu Marchnata** | Comisiynu prosbectws buddsoddi gogledd Cymru sy'n cyfleu neges glir a chymhellol i hyrwyddo ac annog buddsoddiad. |
| **6. Pecyn Cymorth Buddsoddi** | Creu cronfa wybodaeth o offer i gynorthwyo gyda'r broses fuddsoddi. |
| **7. Fframwaith Buddsoddi** | Datblygu fframwaith buddsoddi ar gyfer gogledd Cymru i helpu darpar fuddsoddwyr wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar y cyfleoedd buddsoddi yn y rhanbarth. |

6.2 Bydd cyflawni'r amcanion hyn yn llwyddiannus yn sicrhau y bydd dull cydlynol gwybodus i sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen.

# Dull a Chynllun Gweithredu

6.3 **Amcan 1 y Strategaeth Fuddsoddi**

| **Dadansoddiad Ymchwil** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|
| Cynnal/Comisiynu astudiaeth ddadansoddi ymchwil buddsoddi i adnabod:<br>• Y llinell sylfaen economaidd-gymdeithasol a dealltwriaeth o'r dirwedd fuddsoddi.<br>• Rhwystrau i fuddsoddi<br>• Egwyddorion buddsoddi<br>• Ffyrdd o weithio i drosoli buddsoddiad<br>• Cyfleoedd buddsoddi yng ngogledd Cymru | 13/12/2023 |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Cwblhawyd dadansoddiad ymchwil Rhagfyr 2023 | Cwblhawyd |
| **Statws RAG** | **100%** |

6.4 Amcan 2 y Strategaeth Fuddsoddi

| **Egwyddorion Buddsoddi** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|
| Bydd egwyddorion buddsoddi'r Cynllun Twf yn ceisio sicrhau buddsoddiad moesegol cynaliadwy sy'n wydn ac yn diogelu twf economaidd y rhanbarth | 13/12/2023 |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Derbyniodd yr egwyddorion buddsoddi gefnogaeth y bwrdd ar 15 Rhagfyr 2023 | Cwblhawyd |
| **Statws RAG** | **100%** |

6.5 Amcan 3 y Strategaeth Fuddsoddi

| **Grŵp Buddsoddi** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|
| Sefydlu Grŵp Buddsoddi Rhanddeiliaid sector Preifat-Cyhoeddus i yrru'r cyfleoedd buddsoddi yn eu blaenau ar gyfer gogledd Cymru. | 2024 |

<table>
<tr><td>Bydd deinameg ac amrywiaeth y grŵp yn gwella'r wybodaeth gyfunol a gafwyd. I gyflawni hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn:<ul><li>gweithio gydag aelodau presennol y Bwrdd Cyflawni Busnes (BDB), Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI), Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), Grŵp Gweithredol Uchelgais Gogledd Cymru, a Llywodraeth y DU a Chymru i gael dirnadaeth a dealltwriaeth am fuddsoddwyr a phartneriaid posib. Bydd ymarfer mapio sefydliadol yn helpu i adnabod a deall y sianeli ar gyfer buddsoddiad posib, partneriaethau i'r dyfodol, a pherthnasoedd allweddol.</li><li>manteisio ar Fwrdd Cyflawni Busnes y Cynllun Twf am eu harbenigedd cyfunol ac unigol fel perchnogion/cynrychiolwyr busnes, cyflogwyr, llysgenhadon, ysgogwyr a dylanwadwyr i yrru'r anghenion buddsoddi ymlaen, adnabod cyfleoedd posib a hyrwyddo gogledd Cymru fel Economi i fuddsoddi ynddo.</li><li>dyrannu a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau gan sicrhau bod risgiau a buddion sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiad ar lefel Portffolio, Rhaglen a Phrosiect yn cael eu rheoli'n briodol.</li><li>cydweithio gydag aelodau sy'n gefnogol ac yn ddylanwadol ac yn gallu hyrwyddo a herio rhagdybiaethau a darparu opsiynau ac atebion eraill.</li></ul></td><td></td></tr>
<tr><td>Cynnydd a gyflawnwyd</td><td>Statws</td></tr>
<tr><td>Cylch gorchwyl i gael ei baratoi.</td><td>Heb ddechrau</td></tr>
<tr><td>Statws RAG</td><td></td></tr>
</table>

6.6 Amcan 4 y Strategaeth Fuddsoddi

<table>
<tr><th>Cyfathrebu ac Ymgysylltu</th><th>Dyddiad disgwyliedig cwblhau</th></tr>
<tr><td>Rhoi cynllun wedi'i dargedu yn ei le i ddenu buddsoddiad a sicrhau bod hwn yn cael ei fabwysiadu'n briodol gan randdeiliaid rhanbarthol, gan gynnwys y Swyddfa Rheoli Portffolio, y Bwrdd Uchelgais Economaidd, a'i bartneriaid. Bydd y cynllun yn dod â gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebu at ei gilydd ac yn cyflwyno dull gweithredu cydgysylltiedig sy'n:<ul><li>buddsoddi amser i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth trwy amserlennu ymgynghoriadau rheolaidd ynglŷn â buddsoddi.</li></ul></td><td>2024</td></tr>
</table>



Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

| | |
|---|---|
| • darparu llwyfan i drafod, cydweithio, ymgysylltu a dysgu.<br>• canfod a diffinio canlyniadau mesuradwy i sicrhau effeithiolrwydd a pharhad addasu a dysgu.<br>• cytuno ar y sianeli cyfathrebu i'w defnyddio ar gyfer y cynulleidfaoedd targed.<br>• ymgorffori'r cynllun buddsoddi y cytunwyd arno yn y strategaeth gyfathrebu gyffredinol a'r cynllun a reolir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio Rhanbarthol. | |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Heb ddechrau ar yr amcan. | Heb ddechrau |
| **Statws RAG** | |

6.7 Amcan 5 y Strategaeth Fuddsoddi

| **Cyfathrebu Marchnata** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|
| Bydd y prosbectws buddsoddi yn arddangos pwyntiau gwerthu a chyfleoedd unigryw y rhanbarth yn ogystal â chyfleu neges glir a chymhellol sy'n hyrwyddo ac yn annog mewnfuddsoddiad. Bydd y darpar fuddsoddwr yn deall y rhesymau dros fuddsoddi yng Ngogledd Cymru sy'n cynnwys:<br>• buddsoddiadau eraill<br>• cysylltedd digidol<br>• cysylltiadau trafnidiaeth<br>• ansawdd bywyd | 2024 |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Heb ddechrau ar yr amcan. Cyllid i'w ddynodi a'i sicrhau. | Heb ddechrau |
| **Statws RAG** | |

6.8 Amcan 6 y Strategaeth Fuddsoddi

| **Pecyn Cymorth Buddsoddi** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Bydd y banc gwybodaeth yn hysbysu darpar fuddsoddwyr am y cyfleoedd sydd ar gael ac yn darparu llyfrgell o ddogfennaeth, gwybodaeth, cefnogaeth a chyngor perthnasol fel y penderfynir gan y Grŵp Buddsoddi Rhanddeiliaid. Bydd hyn yn darparu cyd-ddealltwriaeth o'r disgwyliadau buddsoddi ac yn ceisio creu amodau ffafriol i fuddsoddwyr. Mewn gwirionedd bydd hwn yn siop/porthol un stop a fydd yn darparu canolbwynt gwybodaeth i arfogi buddsoddwyr ymlaen llaw ac o bosib yn lliniaru rhywfaint o'r risg fasnachol gysylltiedig.<br>• pwyntiau cyswllt ymholiadau buddsoddwyr<br>• polisïau allweddol perthnasol<br>• amlygu dolenni at gymorth ariannol, grantiau, cronfeydd her a benthyciadau<br>• astudiaethau achos ysbrydoledig gan fuddsoddwyr llwyddiannus y rhanbarth<br>• manylion am gydweithredu posib â phartneriaid<br>• cysylltu buddsoddwyr â rhwydweithiau lleol priodol | |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Heb ddechrau ar yr amcan. Cyllid i'w ddynodi a'i sicrhau. | 2024 |
| **Statws RAG** | |

6.9 Amcan 7 y Strategaeth Fuddsoddi

| **Fframwaith Buddsoddi** | **Dyddiad disgwyliedig cwblhau** |
|---|---|
| Bydd y fframwaith buddsoddi yn amlinellu'r buddsoddiad sydd ei angen ar Bortffolio'r Cynllun Twf a fydd yn cael ei fapio yn erbyn:<br>• unrhyw fuddsoddiad a sicrhawyd a chyfleoedd buddsoddi posib sydd ar gael<br>• cymorth i adnabod a chanolbwyntio ymdrechion ar unrhyw fylchau buddsoddi<br>• croesgyfeirio darpar fuddsoddwyr gyda chyfleoedd buddsoddi<br>• sgorio darpar fuddsoddwyr gan ddefnyddio methodoleg asesu risg diwydrwydd dyladwy sy'n mesur tebygolrwydd buddsoddiad posib<br>• mesurau lliniaru ac opsiynau amgen ar lefel Rhaglen a Phrosiect | 2024 |

| | |
|---|---|
| • galluogi adrodd yn rheolaidd<br>• amlygu lle mae angen buddsoddiad, a lle mae angen ymdrechion. | |
| **Cynnydd a gyflawnwyd** | **Statws** |
| Heb ddechrau ar yr amcan. Cyllid i'w ddynodi a'i sicrhau. | Heb ddechrau |
| **Statws RAG** | |

# 7. Cyllideb a Gofynion Adnoddau

7.1 Cyllideb ac adnoddau i gefnogi Buddsoddiad Sector Preifat (cydgysylltu, goruchwylio, rheoli)

- Bydd angen cydweithio i ddatblygu a gweithredu'r strategaeth hon, yn enwedig gan fod cwmpas y strategaeth yn ehangach na'r buddsoddiad sector preifat sydd ei angen i gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf.
- Bydd y gyllideb a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni yn erbyn pob un o'r amcanion yn cael eu datblygu'n fanylach yn y cynllun manwl.
- Amlinellwyd cyllid penodol o £25,000 i gomisiynu Prosbectws Buddsoddi fel gofyniad gan Lywodraeth Cymru ym Mhrosbectws Adferiad Economaidd Gogledd Cymru.

7.2 Tybiaethau **cyllidebol** a phrif ffynonellau ariannu (gan gynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer cyllid allanol, a threfniadau i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor)

- Bydd angen cyllideb, yn enwedig o ran datblygu deunyddiau marchnata buddsoddi rhanbarthol, y pecyn cymorth buddsoddi a'r fframwaith buddsoddi.
- Bydd y gyllideb a'r adnoddau yn cael eu cwmpasu'n fanylach yn unol â'r cynllun.

# 8. Mesur Canlyniadau

8.1 Dylid datblygu'r gweithgareddau monitro a gwerthuso ymhellach mewn ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft hon. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chytuno ar:

- Ddulliau/mecanweithiau cyfranogol i'w defnyddio i fesur a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith.
- Dangosyddion allweddol i'w holrhain (gan gynnwys buddion busnes) a'r data sylfaenol sydd ei angen.
- Gofynion adnoddau a chyllideb

Y gweithgareddau tebygol i'w cynnwys yw:

- Arolwg boddhad buddsoddwyr ac adborth
- Nifer y buddsoddwyr a gefnogwyd
- Gwerth y buddsoddiad a sicrhawyd (Cynllun Twf/y tu allan i'r Cynllun Twf)
- Nifer y digwyddiadau buddsoddwyr a gynhaliwyd.

# 9. Risgiau a Chamau Lliniaru

9.1 Bydd asesiad risg yn cael ei gwblhau a'i ddiweddaru'n rheolaidd i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw fuddsoddiad posib. Bydd hyn yn cynorthwyo'r Swyddfa Rheoli Portffolio i gynllunio rhag ofn na fydd y buddsoddiad yn cael ei wireddu a sicrhau camau lliniaru i wneud yn siŵr bod ffynonellau buddsoddi eraill yn cael eu hadnabod a'u gweithredu. Bydd risgiau a mesurau lliniaru ar fuddsoddiad sy'n cyd-fynd â phrosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu diweddaru yn unol â'r fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Mae'r risgiau posib yn cynnwys:

- Ar bwy mae'r risg yn effeithio?
  - Cynllun Twf
  - Trigolion y Gogledd
  - GVA Economi Cymru
  - Busnesau
  - Yr Amgylchedd
- Math o risg
  - Cynllun Twf
  - Trigolion y Gogledd
  - GVA Economi Cymru

# 10. Llywodraethu

10.1 Y Swyddfa Rheoli Portffolio ac yn y pen draw Noddwyr Prosiect fydd yn gyfrifol am sicrhau a monitro lefel y buddsoddiad sydd ei angen. Ar gyfer prosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae trefniadau llywodraethu wedi eu hen sefydlu ar waith.

# 11. Adrodd, Mesur a Monitro

11.1 Bydd cyfres o templedi adrodd yn cael eu datblygu a'u defnyddio i fesur a chofnodi'r buddsoddiad a nodwyd. Bydd monitro a gwerthuso parhaus i adnabod bylchau ariannu yn sicrhau y gellir datblygu camau lliniaru i ymateb i'r bylchau hyn. Ar gyfer prosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, mae trefniadau adrodd a monitro wedi eu hen sefydlu ar waith.

# 12. Casgliad

12.1 Mae'r strategaeth fuddsoddi ddrafft yn cyflwyno dull o dynnu ynghyd wybodaeth ac adnoddau allweddol a fydd yn cefnogi gogledd Cymru fel rhanbarth i ddatblygu dealltwriaeth o'r farchnad fuddsoddwyr, datblygu perthnasoedd allweddol a nodi ffynonellau posib o gyllid sector preifat ar gyfer y Cynllun Twf a chyfleoedd buddsoddi eraill yng ngogledd Cymru.

# ATODIADAU

## Atodiad 1: Dadansoddiad SWOT

Mae'r matrics SWOT yn nodi'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a nodwyd i lywio'r dull o sicrhau'r buddsoddiad sector preifat gofynnol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| • Partneriaeth hirhoedlog yn Uchelgais Gogledd Cymru<br>• Buddsoddiad mewn tîm PMO canolog i ysgogi cyflawniad ar y cyd â phartneriaid<br>• Argaeledd tir yng ngogledd Cymru<br>• Pwyntiau cyswllt o weithgarwch economaidd craidd a chyflogwyr mawr mewn diwydiant uwch<br>• Trefi hanesyddol deniadol<br>• Ansawdd bywyd<br>• Asedau diwylliannol a threftadaeth<br>• Asedau amgylcheddol a chynaliadwyedd<br>• Asedau naturiol, mynyddoedd, arfordir, cefn gwlad i ddenu trigolion<br>• Mae targed buddsoddi ar lefel portffolio yn caniatáu i raglenni a phrosiectau rannu'r risg<br>• Asedau addysg a sgiliau<br>• Mae dadansoddiad rhanbarthol sectoraidd yn llywio'r strategaeth a'r cynllun[3]<br>• Cysylltedd - seilwaith, cysylltedd digidol, a chyfalaf naturiol<br>• Clystyrau o arbenigedd ar draws y rhanbarth | • Poblogaeth sy'n heneiddio<br>• Gweithgarwch cyflogaeth isel<br>• Amddifadedd uchel a heriau cymdeithasol mewn mannau<br>• Amrywiaeth economaidd gyfyngedig<br>• Twf hanesyddol mewn diwydiannau gwerth isel neu drawsnewidiol<br>• Datblygiad arfaethedig cyfyngedig<br>• Diffyg cydgasgliad<br>• Heriau strwythurol posib i gefnogi mewnfuddsoddiad (e.e. cynllunio, addysg, cyfyngiadau ail gartrefi)<br>• Cydweithrediad ar draws y sector cyhoeddus<br>• Cyflymder yr ymateb a phenderfyniadau ariannu - ddim yn ddeniadol i'r sector preifat<br>• Dealltwriaeth isel yn y sector preifat o ran datblygu achosion busnes Pum Achos<br>• Profiadau gwahanol o gael mynediad at gyllid cyhoeddus gan y sector preifat<br>• Diffyg adnoddau PMO ar gyfer datblygu busnes a rheoli perthnasoedd sector preifat/buddsoddwyr |

[3]Ymchwil annibynnol a gynhaliwyd gan gwmni ymgynghorol Savills yn ystod 2023

| | |
|---|---|
| | • Diffyg dull rhanbarthol cydlynol o ymdrin â mewnfuddsoddi (gyda'r ddwy Lywodraeth a rhanddeiliaid Llywodraeth Leol)<br>• Y galw ar adnoddau presennol yn canolbwyntio ar gyflenwi<br>• Mae dwy o bum rhaglen y Cynllun Twf yn cario dros 90 y cant o darged cyffredinol Buddsoddiad y Sector Preifat. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| • Asedau mawr i adeiladu arnynt a throsoli twf.<br>• Gweithio Ystwyth/Hyblyg - gallai diwydiant a llafur troedrydd gefnogi twf poblogaeth a mewnfudo.<br>• Mudo i fanteisio ar fuddion ansawdd bywyd.<br>• Fforddiadwyedd - mwy o gartrefi fforddiadwy, gwerth am arian, safleoedd datblygu cost is ac eiddo masnachol.<br>• Dysgu o Gynlluniau Twf eraill, h.y. gwerth MIPIM, UKREiiF.<br>• Cydgynhyrchu prosbectws buddsoddwyr rhanbarthol a deunydd marchnata.<br>• Datblygu gweledigaeth ranbarthol ar gyfer buddsoddiad.<br>• Ymgysylltu â busnesau presennol i gefnogi twf a chadw.<br>• Annog adborth gan fusnesau presennol a gwrando/ymateb iddo.<br>• Annog mwy o ddull a arweinir gan y sector preifat i ddenu buddsoddiad rhanbarthol (Bwrdd Cyflawni Busnes).<br>• Canolbwyntio ar fuddsoddiad a all gyfrannu tuag at dargedau datgarboneiddio. | • Potensial i gael eich gadael ar ôl, gan arwain at ddirywiad pellach mewn cenhedlaeth ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd negyddol.<br>• Poblogaeth sy'n heneiddio yn rhoi pwysau ar y gwasanaeth.<br>• Fforddiadwyedd yn rhoi pwysau ar dai i breswylwyr.<br>• Gallai mewnfudo effeithio ar gymunedau traddodiadol.<br>• Twf organig yn annigonol.<br>• Proffil a chyfleoedd heb eu gwireddu.<br>• Ansicrwydd ynghylch penderfyniadau polisi ynni yn Llywodraeth y DU. Mae prosiect Trawsfynydd yn cario £360m o'r targed cyffredinol.<br>• Cyfleoedd wedi eu colli oherwydd ymateb heb ei gydlynu i ymholiadau.<br>• Cystadleuaeth ar gyfer buddsoddiad yn y sector preifat ar draws y Bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru.<br>• Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio'n ormodol ar ddenu buddsoddiad i dde Cymru - llais/cyfleoedd gogledd Cymru yn fud.<br>• Mecanweithiau ariannu gwahanol ar gael mewn Cynlluniau Twf eraill (Cam 1), h.y. Gall CCR gynnig cyfalaf o gronfeydd allweddol - achos busnes pum achos ar y gronfa yn hytrach na'r prosiect.<br>• Mae buddsoddwyr yn colli diddordeb oherwydd costau a phroses ddemocrataidd araf.<br>• Bygythiad posib o'r agenda ffyniant bro yn canolbwyntio buddsoddiad ar ranbarthau Lloegr. |

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

## BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

## 15fed Mawrth, 2024

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Trosglwyddo i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd |
| **AWDUR:** | Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio a Phrif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o sefydlu y Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ymateb i'w swyddogaethau statudol a chyflawni'r bwriad o drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'r CBC.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Nodi'r diweddariad cynnydd ar y gwaith i sefydlu'r CBC ac ymateb i'r tasgau sy'n ofynnol fel rhan o'i swyddogaethau statudol.

2.2. Nodi'r cynllun a'r amserlen arfaethedig ar gyfer trosglwyddo Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Ym mis Rhagfyr 2021/Ionawr 2022, bu'r Cabinet a Phwyllgorau Gwaith ym mhob un o'r chwe Awdurdod Lleol gytuno, mewn egwyddor, y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru drwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Mae'r fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen gyda'r trosglwyddiad arfaethedig.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Mae sefydlu'r CBC yn ofyniad cyfreithiol ac mae amserlenni i gyflawni'r dyletswyddau statudol a ragnodir yn y ddeddfwriaeth - i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chynllun Datblygu Strategol rhanbarthol yn pwyso.

4.2. Mae'r cynnydd hyd yn hyn wedi'i gyflawni drwy'r Prif Weithredwr rhan-amser dros dro, gyda gwasanaeth cyfreithiol ac ariannol yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd i gyflawni cyfrifoldebau'r swyddogion statudol dros y CBC. Y bwriad yw parhau gyda'r trefniadau hyn i gefnogi'r broses drosglwyddo.

4.3. Mae'r CBC yn ddarostyngedig i ddyletswyddau mwy cyffredinol awdurdodau lleol, megis y Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, safonau iaith o dan Mesur y Gymraeg 2011, a deddfwriaeth arall, yn yr un modd ag awdurdodau lleol.

**Cynllun ac Amserlen Arfaethedig**

4.4. Mae swyddogaethau a threfniant partneriaeth y Bwrdd Uchelgais wedi'u gosod allan yng Nghytundeb Llywodraethu 2 ("GA2") . Mae hyn hefyd yn cynnwys trefniadau hirdymor ar gyfer cefnogi'r Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn ariannol. Bydd trosglwyddo’r swyddogaethau hyn, ac yn benodol y Cynllun Twf, yn fater i'r awdurdodau lleol i'w benderfynu. Rhagwelir y byddai'r Cynllun Twf yn cael ei drosglwyddo i'r CBC gan gynnal y trefniadau ariannol i gefnogi'r Cynllun Twf. Mae gan y CBC bŵer statudol i ddarparu ar gyfer lles economaidd y rhanbarth. Mae'r swyddogaeth hon yn cyd-fynd â phwerau datblygu economaidd y Cynghorau a sut y bydd angen datblygu'r swyddogaethau hyn yn rhanbarthol fel rhan o ddatblygiad y CBC. Mae’n rhaid cydnabod bod y penderfyniadau gwreiddiol wedi'u gwneud pan oedd y CBC yn gysyniad ac yn dal i gael ei ddatblygu. Felly, bydd yr union fodel ar gyfer y trefniadau trosglwyddo hefyd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith yma.

4.5. Er mwyn trosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys y Cynllun Twf a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC, bydd pedair ffrwd waith annibynnol yn cael eu sefydlu. Bydd gan pob ffrwd raglen waith a therfyn amser cytunedig i gyflawni trosglwyddiad swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC. Bydd Bwrdd Prosiect Gweithredu CBC y Gogledd yn goruchwylio'r ffrydiau gwaith i ddarparu trosolwg ac i sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni gyda risgiau allweddol yn cael eu nodi a'u rheoli. Bydd swyddogion allweddol o'r Swyddfa Rheoli Portffolio a Chyngor Gwynedd yn eistedd ar y bwrdd prosiect.

4.6. Mae’r tabl isod yn rhoi amlinelliad o’r 4 ffrwd waith allweddol a’u pwrpas:

| Ffrwd gwaith | Pwrpas | Cerrig Milltir allweddol |
|---|---|---|
| Cytundeb ar Drosglwyddo<br>Cyfreithiol / Llywodraethu | Sicrhau bod y cytundebau a'r caniatadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni'r trosglwyddiad yn cael eu sicrhau a'u cytuno.<br>Sicrhau bod y trefniadau a'r cytundebau llywodraethu angenrheidiol mewn lle o fewn y CBC ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf, gan gynnwys rôl ymgynghorwyr o fewn y Bwrdd Uchelgais Economaidd. | • Sicrhau cytundeb gan Cabinet a Pwyllgorau Gwaith y 6 Awdurdod Cyfansoddol a phartïon GA2 i drosglwyddo.<br>• Cytundeb y ddwy lywodraeth i drosglwyddo’r Cynllun Twf i'r CBC ynghyd a throsglwyddo darpariaeth y Cynllun Twf a thynnu i lawr y cyllid i'r CBC.<br>• Cytundeb ar barhad y model ariannu presennol ar gyfer y Cynllun Twf.<br>• Cytundeb ar y rhyng-berthynas ôl-drosglwyddo |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhwng y CBC a'r Cynghorau Cyfansoddol.<br>• Cytundeb ar rôl ymgynghorwyr presennol y Bwrdd Uchelgais o fewn y CBC.<br>• Cytundeb ar sut y bydd rôl datblygu'r economi rhanbarthol ehangach y CBC yn cael ei llunio a'i chydfodoli â swyddogaethau presennol yr Awdurdodau Lleol yn y maes hwn. |
| Pobl ac Adnoddau Dynol | Bwrw ymlaen gyda'r broses TUPE, gan gynnwys ymgynghori gyda staff, sicrhau bod polisïau a phrotocolau staff mewn lle er mwyn sicrhau trosglwyddiad llwyddiannus i'r CBC. | • Polisïau a phrosesau perthnasol a fabwysiadwyd gan y CBC.<br>• Cynnal ymgynghoriad TUPE.<br>• Trosglwyddodd llwyddiannus staff i'r CBC. |
| Cyllid, Prosesau a Systemau | Galluogi trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a threfniadau ariannu prosiectau, yn ogystal â sicrhau bod pob proses a system gweithredol mewn lle ar gyfer trosglwyddo'r Swyddfa Rheoli Portffolio i'r CBC. | • Cymeradwyaeth gan y llywodraeth ar gyfer trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf.<br>• Prosesau a systemau angenrheidiol mewn lle cyn trosglwyddo cyllid y Cynllun Twf a staff y Swyddfa Rheoli Portffolio. |
| Cyfathrebu ac Ymgysylltu | Sicrhau bod staff a rhanddeiliaid allweddol yn cael eu cyfathrebu â nhw a'u cynnwys drwy gydol y broses. | • Cytuno ar y Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu.<br>• Cyfathrebu rheolaidd cyn ac ar ôl trosglwyddo.<br>• Cwblhau ymgynghoriad TUPE. |

4.7. Caiff adnoddau i gwrdd â nifer y gweithgareddau sydd angen ei weithredu ar gyfer pecyn cynhwysfawr o drefniadau pontio, cynnal busnes fel arfer a'r cynnydd yng ngweithgareddau cydymffurfio'r CBC, eu rheoli trwy secondiad gan Lywodraeth Cymru, a cyfran amser Prif Weithredwr dros dro y CBC. Mae cymorth hefyd yn cael ei ddarparu drwy Swyddog 151 a Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd, ynghyd a'r Timau Cyfreithiol a Chyllid.

4.8. Mae'r 1af o Orffennaf wedi ei adnabod fel y dyddiad targed amodol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o Uchelgais Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd. Fodd bynnag, gall nifer o ffactorau effeithio ar y dyddiad hwn, gan gynnwys yr angen am gytundeb partner a llywodraeth i drosglwyddo'r Cynllun Twf; gofynion gwneud penderfyniadau ac amserlenni, cyfyngiadau capasiti mewnol ac ystyriaethau TUPE. Mae angen i benderfyniadau allweddol bod mewn lle i gyflawni'r trosglwyddiad a gall hyn arwain at rai meysydd yn cael eu trosglwyddo yn ystod cyfnod yr Hydref 2024.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd costau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo swyddogaethau i'r CBC yn gysylltiedig yn bennaf ag amser swyddogion, gwariant cyfreithiol ac ariannol. Bydd cyllid yn cael ei dynnu o gyllidebau presennol y CBC a'r Bwrdd Uchelgais. Bydd cymorth Cyfreithiol, Adnoddau Dynol, Cyllid, Technoleg Gwybodaeth a Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddarparu drwy adnoddau Cyngor Gwynedd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r adroddiad yma’n nodi ar lefel uchel yr hyn a gynigir.

6.2. Mae'r Cynllun Twf yn bartneriaeth ffurfiol rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru a'r 6 awdurdod cyfansoddol. Mae'n seiliedig ar bortffolio ac mae cyllid yn cael ei dynnu i lawr drwy lythyr cyllido blynyddol ffurfiol sy'n gytundeb grant a wnaed gan yr awdurdod lletya ar ran y 10 partner arwyddedig i Gytundeb Llywodraethu 2 ond yn bennaf y 6 Cyngor Cyfansoddol. Mae rhyddhau cyllid ar gyfer unrhyw gyfnod yn amodol ar berfformiad gweithrediad y Cynllun Twf a gall y Llywodraethau ei ddal yn ôl.

6.3. Mae nifer o faterion llywodraethu a chyfreithiol wrth wraidd y prosiect hwn. Mae'r rhain wedi’u hamlygu yn y tabl uchod. Mae yna hefyd risgiau y bydd angen eu rheoli a’u datrys yn ogystal â chydsyniadau allweddol er mwyn gweithredu trosglwyddiad a’r amserlen. Mae yna ddibyniaethau wedi'u hymgorffori yn y rhaglen, sy'n golygu, er y gellir cyflawni elfennau i hwyluso cynnydd, bydd angen penderfyniadau neu gymeradwyaethau allweddol er mwyn caniatáu cynnydd.

**7. ASESIADAU EFFAITH**

7.1. Deddf Cydraddoldeb 2010.

7.2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

---

**ATODIADAU:**

**Dim**

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – Awdurdod Lletya:**

"Mae trosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC yn fater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau i'w benderfynu. Fel mae'r adroddiad yn amlinellu, mae angen penderfyniadau allweddol i alluogi'r broses hon i symud ymlaen. Bydd y rhain yn cynnwys y Cyngor, partneriaid addysgol a'r ddwy lywodraeth. Er bod cytundeb mewn egwyddor bydd hyn yn gofyn am lawer o waith manwl ar draws nifer o feysydd. O ran y CBC, bydd angen iddo yn gyfochrog gyfrannu at y broses hon a sefydlu'r trefniadau llywodraethu a gweinyddol mewnol angenrheidiol i hwyluso'r trosglwyddiad i mewn. Bydd angen dod â'r trafodaethau ar y model craffu arfaethedig hefyd i aeddfedrwydd fel rhan o'r elfen hon.

Rwy'n croesawu'r bwriad i greu tîm prosiect amlddisgyblaethol i arwain ar y mater hwn. Bydd angen cefnogaeth gyfreithiol agos, gan dynnu ar adnoddau mewnol ac allanol. O ystyried bod Uchelgais Gogledd Cymru yn seiliedig ar strwythur partneriaeth, bydd y gwaith yn cynnwys cyswllt agos â'r holl bartneriaid i ddod i gytundeb ar agweddau allweddol ar y model arfaethedig. Mae'r gwaith cychwynnol o amgylch y broses hon eisoes ar y gweill ac mae'r elfennau allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y mewnbwn a'r cyngor hwn."

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog 151 yr Awdurdod Lletya)**

"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir a byddaf yn cynorthwyo gyda'r gwaith o wireddu'r prosiect hwn fel bo'r angen. Nid oes gennyf sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

**Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**
**15 Mawrth 2024**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC)<br>- Ymestyn secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais fel Prif Weithredwr dros dro y CBC |
| **AWDUR:** | Dylan J Williams, Prif Weithredwr Arweiniol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer y Bwrdd Uchelgais |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1. Fe gofiwch i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) gyflwyno ceisiadau yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser ei Gyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC ar sail dros dro tan y 31 o Fawrth 2024. Cymeradwy-wyd y cais gwreiddiol yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi 2022 ac yna’r ddau gais i yme-styn y cyfnod ymhellach yng nghyfarfodydd y Bwrdd ar y 23 o Fawrth, 2023 a’r 27 o Hydref, 2023. Mae'r adroddiad hon yn cyflwyno cais pellach i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gyt-uno i ymestyn cyfnod y secondiad, am ddau ddiwrnod yr wythnos, hyd at y 30 Mehefin 2024.

**2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Bod y Bwrdd Uchelgais yn ystyried yr argymhellion a ganlyn:

- Bod y Bwrdd Uchelgais yn cefnogi ymestyn y trefniant i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Port-ffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 30 Mehefin 2024 er mwyn parhau i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr ar sail dros dro.
- Bod yr holl gyflogaeth gysylltiedig a'r costau cysylltiedig yn parhau i gael eu hysgwyddo gan CBC y Gogledd

**3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

3.1. Gan ystyried penderfyniad, mewn egwyddor, y Cynghorau i drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gynorthwyo rhanbarth y Gogledd i sefydlu'r CBC, a sicrhau bod buddiannau'r Bwrdd Uchelgais yn cael eu diogelu wrth i'r CBC symud ymlaen.

Erbyn hyn mae’r 1af o Orffennaf eleni wedi’i adnabod fel dyddiad ar gyfer trosglwyddiad terfynol swyddogaethau’r Bwrdd i'r CBC a bydd adroddiad yn amlinellu’r camau gweithredu ar gyfer gwir-eddu hynny yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar yr 22 o Fawrth, 2024.

**4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

4.1. Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynu cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser ei Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig, o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023. Fel ag y nodwyd eisioes cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cais hwnnw yn ei gyfarfod ar y 30 Medi, 2022.

4.2 Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oes digon o amser ar gael i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

4.3 Mae secondiad rhan-amser y Cyfarwyddwr Portffolio yn sicrhau bod y Cynllun Twf a'r Weledigaeth Twf yn parhau i gael eu cyflawni yn ystod ac ar ôl y cyfnod pontio hwnnw, gydag unrhyw gynnwrf yn cael ei leihau i'r eithaf.

4.4 Mae angen cyfraniad Cyfarwyddwr Portffolio'r Bwrdd Uchelgais i sefydlu'r CBC mewn perthynas a chydlynu'r swyddogaeth Lles Economaidd beth bynnag, ac felly mae ymestyn y trefniant hwn drwy gyfrwng y secondiad rhan-amser, yn caniatáu canolbwyntio ar yr ymwneud hwnnw ac yn osgoi dyblygu adnoddau.

4.5 Mae'r penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo y Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorau ac yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol diweddar bydd modd mynd i'r afael â'r broses yma yn ystod y misoedd nesaf. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad bydd sefyllfa holl staff y Swyddfa Portffolio yn cael ei gyfarch.

4.6 Mae'r Bwrdd Uchelgais, drwy Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lletya, yn parhau'n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams ac mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn digolledu'r Bwrdd Uchelgais am y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r secondiad.

4.7 Yn ei gyfarfod ar y 24 o Fawrth, 2023 ac yna ar y 27 o Hydref, 2023, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i'r cais i ymestyn cyfnod secondiad y Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rol Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig hyd at 31 Mawrth, 2024.

4.8 Yn wyneb y ffaith bod rhai materion allweddol angen eu cadarnhau cyn y gall y Cyd-Bwyllgor Corfforedig benodi Prif Weithredwr ar sail parhaol e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y Cyd-Bwyllgor, mae angen ail-ymweld a'r penderfyniadau a wnaed am un tro arall.

4.9 O dan yr amgylchiadau hyn, mae angen i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sicrhau Prif Weithredwr ar sail dros-dro ac felly, gyda chydsyniad y Bwrdd Uchelgais, argymhellir bod cyfnod secondiad Alwen Williams i'r swydd honno yn cael ei ymestyn tan 30 Mehefin, 2024 ar sail yr amodau presennol.

4.10 O dderbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Uchelgais i ryddhau'r Cyfarwyddwr Portffolio am gyfnod pellach ar sail y telerau presennol, bydd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ystyried argymhelliad i ymestyn hyd penodiad Alwen Williams yn ei gyfarfod ar y 22 o Fawrth, 2024.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Cadarnheir y byddai'r estyniad arfaethedig i'r secondiad rhan-amser hwn yn gost niwtral net ar gyfer y Bwrdd Uchelgais gyda'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ymgymryd a'r gost berthnasol.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi'i sefydlu yn unol â Chytundeb Llywodraethu 2 i weithredu fel y corff sy'n gwneud penderfyniad ar gyfer y bartneriaeth o awdurdodau lleol a'r cyrff addysg i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Weledigaeth Twf. Caiff ei swyddogaethau a'r deilliannau y mae eu hangen i gyflawni wedi'u diffinio gan y cytundeb a'r Cynllun Busnes Cyffredinol a gwblhawyd law

yn llaw â'r Cynllun Twf. Mae gofyn iddo hefyd benodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i Arwain y Swyddfa Portffolio.

6.2. Er hynny, cafodd dyfodiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ei ragarwyddo yn GA2 a chyfeirir ato'n benodol fel mater sydd wedi'i gadw i'r Cynghorau. Mae darpariaeth benodol yn y cytundeb sy'n cydnabod y bwriad i greu'r CBC ac y gallai trosglwyddo swyddogaethau ddigwydd. Adlewyrchir hyn yn y penderfyniad 'mewn egwyddor' gan y chwe Weithrediaeth ym mis Rhagfyr 2021 i dros-glwyddo swyddogaethau'r Bwrdd uchelgais i'r CBC ar yr amod bod y model a'r fframwaith statudol yn eu lle i gyflawni hyn. Mae'r CBC bellach wedi'i sefydlu ac mae'r model statudol wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, ar y pwynt hwn, mae'r gwaith o greu'r CBC fel corff cyhoeddus gweithredol gyda threfniadau llywodraethu a rheoli yn parhau. Mae angen i'r gwaith hwn adlewyrchu a pharatoi ar gyfer derbyn rôl y Bwrdd Uchelgais i mewn i'r CBC a'i fodel llywodraethu.

6.3. Yn nhermau GA2, nid yw estyniad arfaethedig y secondiad yn ei gwneud hi'n ofynnol i adnoddau a chyfraniadau'r Bwrdd Uchelgais gael eu cyfrannu i gefnogi'r CBC. Yn ogystal, mae darpariaeth yn y cyfamser i gynnal capasiti i gefnogi'r gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais. Mae hi hefyd yn berthnasol bod angen i drosglwyddo swyddogaethau'r Bwrdd Uchelgais i'r CBC gael ei gynllunio'n briodol ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer i sicrhau y gellir ei wneud yn effeithiol ac yn effeithlon.

---

**ATODIADAU:**

Dim

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Rwyf wedi cael mewnbwn i’r adroddiad ac yn fodlon gyda priodoldeb yr argymhellion

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Credaf fod yr hyn a gynigir yn cynnig datrysiad pragmatig er mwyn ymdrin â’r sefyllfa. Gallaf gadarnhau fod trefniadau yn eu lle i ad-dalu Uchelgais Gogledd Cymru am amser y Cyfarwyddwr Portffolio pan mae’n ymgymryd â rôl Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.